# Y Ditectif Sbwriel – Atebion Posibl

Gallai grwpiau wneud y gweithgaredd yma'n well gyda bagiau o sbwriel i chwilio drwyddynt.

Os yw'r plant yn defnyddio'r rhestrau isod, dylent fod yn gofyn cwestiynau am y cynnwys:

Gallai'r ffaith fod llawer o'r cynnwys yn ymwneud â bwyd arwain y plant i feddwl am gegin ond gallai hefyd wneud iddynt feddwl yn fwy cyffredinol am ddiet. Mae'n weddol debygol y bydd y cynnwys yn gwneud iddynt feddwl am ailgylchu a gellir defnyddio'r ymarfer yma hefyd i wneud iddynt feddwl am wahaniaethau rhwng ein bwydydd ni a bwydydd y Rhufeiniaid. Mae'n annhebygol mai garum oedd y saws!

- Croen tatws
- Bag plastig gyda briwsion bara ynddo
- Potel saws wag
- Mwg wedi torri
- Potel sebon golchi llestri wag
- Plisgyn wyau

Mae'r eitemau yma i gyd yn rhai y gallech eu canfod mewn ystafell ddosbarth. Gellir defnyddio'r eitemau yma i wneud i'r plant feddwl am addysg Rufeinig. Beth allai fod wedi'i ganfod yn lle papur wedi'i grychu? Sut fyddai Rhufeiniaid wedi ysgrifennu? Efallai y byddent yn sylweddoli y gallai'r hyn sydd ar y papur roi mwy o gliwiau iddynt.

- Darn o bapur wedi'i grychu
- Pensil wedi torri
- Rholyn gwag o dâp selo
- Pacedi creision
- Sticer wedi rhwygo

Gallai'r eitemau yma i gyd fod yn perthyn i blentyn, ond dylent sylweddoli y gallent ganfod llawer mwy o gliwiau drwy geisio mwy o wybodaeth. Pa mor fawr oedd y trenyrs? Gallai roi cliw i oedran y plentyn. Pa steil oedden nhw? Gallai gwybod hynny eich helpu i wybod a oeddent yn perthyn i fachgen neu ferch. Beth yn union oedd yr athro wedi'i ysgrifennu? Beth oedd y tegan?

- Hen bâr o drenyrs
- Crys T wedi gwisgo
- Comics
- Llythyr gan athro
- Paced fferins gwag
- Gwaith cartref gyda cola wedi colli arno
- Tegan wedi torri

Gyda'r eitemau yma'n arbennig, dylai'r plant sylweddoli bod ceisio mwy o fanylion yn gyfle iddynt ddysgu llawer mwy, e.e. gallai gweld y bil eu helpu oherwydd gallent weld yn union beth brynwyd yn yr archfarchnad. Hefyd, efallai y byddai'n ddefnyddiol gofyn beth oedd y cylchgrawn.

- Bil o'r archfarchnad
- Papur o far o siocled
- Tun bwyd ci gwag
- Hen gylchgrawn
- Crib wedi torri

**Sbwriel Rhufeinig**

Mae pob un o'r eitemau a restrir yn rhai sydd wedi cael eu canfod mewn baddonau Rhufeinig. Byddai pobl yn bwyta tra'r oeddent yno, ac mae'n ymddangos bod pysgod cregyn yn arbennig o boblogaidd. Efallai y bydd y plant yn ystyried pa bethau eraill allai gael eu canfod yno.

- cregyn
- esgyrn migyrnau moch
- darn o arian
- jar wedi torri gyda gweddillion olew ynddo
- esgyrn cyw iâr